# Dod o Hyd i Ddata am Ffilmiau Cymreig: 22-23



Yn dilyn ymlaen o'n hymchwil data ffilmiau Cymreig, sy'n rhedeg ers 2019, fe wnaethom gomisiynu Delphine Lievens i edrych yn fanwl ar 13 o ffilmiau a ryddhawyd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Y nod oedd dadansoddi sut wnaeth y ffilmiau berfformio mewn sinemâu, a sut wnaeth ein cefnogaeth gyfrannu at eu dangos.

FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

Delwedd: The Silent Twins (© Universal Pictures)

# Ein Methodoleg

**13*** ffilm llawn
(o 16 teitl hysbys)

**Dyddiadau rhyddhau Ebrill 22 – Mawrth 23**

*

**Ystod o gyllidebau** a strategaethau rhyddhau

**Arolwg dosbarthwr / cynhyrchydd / ariannwr a phersonél**

Data
**Comscore**

Ymchwil
**Desg**

## Ffilmiau a Wnaethpwyd yng Nghymru yn cynnwys:

- Talent o Gymru (cyfarwyddwr, cynhyrchydd, ysgrifennwr a phrif gast).
- Wedi'i chreu gan gwmnïau cynhyrchu neu wneuthurwyr ffilmiau sy'n weithredol yng Nghymru.
- Ffilmiau a leolir yng Nghymru neu sy'n ymdrin â straeon Cymreig.
- Ffilmiau yn y Gymraeg.



Image: Y Sŵn (© Joio)

# Ffilmiau















Delweddau o'r chwith uchaf:
***The Phantom of the Open*** *(© Nick Wall),* ***Brian and Charles*** *(© Universal Pictures),* ***Donna*** *(©* Truth Department*),* ***Gwledd / The Feast*** *(© Picturehouse Entertainment),* ***Off the Rails*** *(© Rikke Brewer),* ***Burial*** (© 101 Films), ***Catherine Called Birdy*** (© Republic Film Distribution), ***The Silent Twins*** *(© Universal Pictures),* ***The Swimmers*** *(© Netflix),* ***Translations*** *(© Keith Kopp),* ***She is Love*** *(© Signature Entertainment),* ***The Bronze Men of Cameroon*** *(© Iris Films),* ***Y Sŵn*** *(© Jojo)*

# Ein

# Darganfyddiadau

## Dosbarthu



**92%**
to ffilmiau wedi'u dosbarthu i sinemâu



**8%**
wedi'u rhyddhau ar sail Fideo ar Alw yn unig



**46%**
wedi'u rhyddhau'n gyfyngedig (i lai na 100 safle)



**23%**
o ffilmiau wedi'u hunan-ddosbarthu



**100%**
wedi cynnig dangosiad ymlaen llaw i arddangoswyr

## Perfformiad

- 1 ffilm wedi gwneud dro **£1m** n y swyddfa docynnau
- Y ffilm â'r perfformiad uchaf nesaf wedi gwneud dr **£100k** (£300k)
- **£2.5m** o werthiant tocynnau ar draws y DU ac Iwerddon

**332,955** o fynediadau yn y DU ac Iwerddon

**£124.8k** (4.9%) o werthiant tocynnau yng Nghymru

**17,620** o fynediadau mewn safleoedd yng Nghymru

Cyfran marchnad Cymru yn 2022 (3.11%) a 2023 (3.16%).



Mae **77%** o'r dosbarthwyr yn cyflwyno data i Comscore. Nid yw hyn yn cynnwys data o du hwnt i sinemâu, sy'n golygu y gallai mynediadau fod yn uwch.



Cafodd 5 o'r 13 **38%** o ffilmiau eu dangos mewn digwyddiadau arbennig (h.y. dangosiadau cyntaf, sesiynau holi ac ateb, dangosiadau cast a chriw) yng Nghymru.



Cafodd pob un o'r 13 ffilm **100%** sylw yn y wasg, yn bennaf adolygiadau ar-lein. Cafodd Gwledd ac Y Sŵn sylw teilwng yn y wasg Gymreig benodol. Cafodd bob un ohonynt rywfaint o sôn am gysylltiad Cymreig ond mewn rhai achosion, prin iawn oedd hyn.




**Delwedd:** The Phantom of the Open (© Nick Wall, eOne Entertainment)

## Ffaith Ffilm:

£2.5 miliwn wedi'i wneud ar draws 9 ffilm, sy'n fwy na dwbl y £1.1 miliwn gros y nodir yn adroddiad '21-'22, ac yn llawer uwch na chyfanswm adroddiad '20-'21 o £392,289. Mae hyn yn cyd-fynd ag adferiad swyddfa docynnau 22/23 ond gellir priodoli'r mwyafrif o'r llwyddiant hwn i'r ffilmiau a ryddhawyd fwyaf eang ac a gefnogwyd gan ddosbarthwyr mwy. Mae'r ffilmiau gan gwmnïau dosbarthu llai yn dangos mwy o wahaniaeth yng ngwerthiant tocynnau, gan ddangos bod marchnad 22/23 yn heriol i ffilmiau annibynnol. Rhyddhawyd 911 o ffilmiau yn 2022, ond yn 2021 dim ond 503 o ffilmiau a ryddhawyd, sy'n golygu y gallai ffilmiau annibynnol a ryddhawyd yn ystod pandemig 20/21 gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, oherwydd bod llai o gystadleuaeth gan y ffilmiau mawr.

## Derbyniad Rhyngwladol



Cafodd **69%** o ffilmiau ryddhad theatraidd rhyngwladol



**30%** dangos am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilmiau Llundain



**61%** ryddhawyd yn rhyngwladol mewn sinemâu yng Ngogledd America



**100%** sicrhaodd ffilm o leiaf un ŵyl.



Cafodd 4 teitl **31%** eu dangos am y tro cyntaf mewn gŵyl ffilm ryngwladol fawr (Sundance, SXSW, Toronto)

## Ffaith Ffilm:

Er gwaethaf gostyngiad bach yn nangosiadau cyffredinol mewn gwyliau yn y cyfnod hwn, dangoswyd llawer o'r ffilmiau mewn gwyliau llai yn rhyngwladol, gan gynnwys digwyddiadau genre-benodol. Er bod y gwyliau hyn yn llai o ran maint, mae gan lawer ohonynt enw da, llawn bri. Dangoswyd *Gwledd* mewn gwyliau arswyd arbenigol Sitges a Fantasia, dangoswyd *Off the Rails* yn Sheffield Doc Fest, a chafodd *Donna* ei dangosiad cyntaf rhyngwladol yng ngŵyl LHDTC+ Frameline yn UDA.

## Cyllid

Amrywiodd gyllidebau ymgyrchoedd dosbarthu o **£0-15k**

Roedd **5** o ddosbarthwyr yn ystyried y wybodaeth yma'n gyfrinachol ac felly nid oeddent wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Fe dderbyniodd **15%** (2 ffilm) gyllid cynhyrchu gan y BFI (cynnydd o 7% yn 21)

Fe dderbyniodd **31%** (4 ffilm) gyllid Cynhyrchu Ffilm Cymru Wales (cynnydd o 14% yn 21)(increase from 14% in 21)

Fe dderbyniodd **0** wobr Cymru Greadigol (gostyngiad o 1 ffilm yn 2020)*1.

Fe dderbyniodd **1** teitl gyllid dosbarthu BFI (Gwledd)

Fe dderbyniodd **1** teitl gyllid dosbarthu Ffilm Cymru Wales (*Donna*)

## Sbotolau:

Cyfwelwyd Prif Swyddog Gweithredol FfCW Lee Walters am y 4 ffilm a gefnogwyd gan FfCW. Cyrhaeddodd *Off the Rails, Donna, Gwledd* a *Burial* dros 30 o diriogaethau gan gynnwys Cymru. Roedd buddsoddiad Cymreig yn amrywio o 5.2% (*Burial*) i 51.2% (*Donna*). Mae adnoddau yn rhwystr i dimau ffilmiau bychain. Gallent wneud cais am gyllid ar gyfer cyhoeddwr neu gynhyrchydd effaith (wedi'i gapio ar 25k) i wella cyrhaeddiad yng Nghymru, ar sail cynlluniau dosbarthwr y DU. Gall strwythur ariannu tameidiog ohirio gwaith datblygu cynulleidfaoedd cynnar. Gall yr asiant gwerthu hefyd flaenoriaethu apêl ehangach neu ryngwladol dros farchnata sy'n canolbwyntio ar Gymru. Gall diffyg asiantau gwerthu o Gymru a diffyg gŵyl ffilm genedlaethol gyda marchnadoedd rwystro gwelededd ond gall ffilmiau sicrhau dangosiad teledu, llwyfannau digidol neu adnoddau addysgol. Gallai dealltwriaeth o heriau'r cynhyrchwyr helpu i gyrraedd mwy o gynulleidfaoedd lleol. Mae FfCW bellach wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Gymru Greadigol er bod ffocws y cyllid ar gynhyrchu uniongyrchol yn hytrach na dosbarthu.



**Delwedd**: Donna (© Truth Department)

## Cefnogaeth Canolfan Ffilm Cymru

Rhestrwyd **100%** o'r ffilmiau yn y catalog ac fe hyrwyddwyd bob un drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.

Dangoswyd **38%** (5 ffilm) i arddangoswyr yn Nyddiau Rhagarddangos Cymreig a 77% (10 ffilm) mewn ystafell rhagarddangos ar-lein.

Fe dderbyniodd **38%** (5 ffilm) asedau neu gefnogaeth wedi'i theilwra'n arbennig,

## Sbotolau:

Mae yna gydberthynas amlwg rhwng teitlau a gafodd y gefnogaeth fwyaf cynhwysfawr gan GFfC dros gyfnodau hirach (*Y Sŵn, Gwledd, Brian and Charles, Donna* a *Bronze Men of Cameroon)* a'u cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r farchnad o sinemâu a/neu swyddfa docynnau theatraidd yng Nghymru. I raddau helaeth mae dosbarthwyr yn gwerthfawrogi cysylltiadau CFfC â chronfa ehangach o arddangoswyr a'r cymorth estyn allan a gynigir. Mae'r awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth yn cynnwys creu 'marchnad ffilm Gymreig' (digwyddiadau ar gyfer y diwydiant sy'n hyrwyddo teitlau Cymreig sy'n chwilio am gyllid cynhyrchu, cyfleoedd dosbarthu) a chyllid uniongyrchol ar gyfer dosbarthu. Ar hyn o bryd mae'r ddau beth y tu hwnt i gylch gwaith arddangos CFfC, sy'n awgrymu diffyg ymwybyddiaeth o bwrpas y Ganolfan a / neu ddiffyg eglurdeb o ganlyniad i gefnogaeth gyfyngedig y diwydiant.



Delwedd: Brian and Charles (© Focus Features)

**"Roedd eich cefnogaeth yn amhrisiadwy wrth i ni ryddhau ein ffilm. Fe wnaeth eich cymorth gynorthwyo ein cyfathrebiadau cyffredinol a chodi ymwybyddiaeth ehangach o'r ffilm. Fe helpoch ni i estyn allan ac fe helpoch gyda'n gwaith gyda nifer o bartneriaid. Fe wnaethoch chi hefyd roi cefnogaeth allweddol gydag ystod eang o arddangoswyr a'r gwaith roedden nhw'n ei nweud. Yn gryno, fe helpodd eich cefnogaeth i ddyrchafu'r ffilm a'i chyflwyno i gynulleidfa ehangach."**
**- Dosbarthwr**

## Sbotolau:

Fe eithriwyd *Portrait of Kaye*, o'r adroddiad hwn gan na gafodd ryddhad swyddogol mewn sinemâu ac felly roedd diffyg data cysylltiedig. Fodd bynnag, fe arweiniodd y gefnogaeth gan CFfC at enwebiad Bafta Cymru ar gyfer y ffilm.



**"Mae brwdfrydedd a chymorth Gwnaethpwyd yng Nghymru wedi helpu i godi proffil yr hyn y mae rhai yn ei ystyried yn brosiect dogfennol eithaf anarferol. Mae eu cefnogaeth wedi bod yn hynod bwysig o ystyried gwreiddiau 'DIY' a'i ddosbarthiad 'DIY; heb y math hwn o gydweithrediad byddai ffilm o'n cyllideb fechan yn annhebygol o fod wedi'i gweld mewn sinemâu yn y DU."**
**- Cyfarwyddwr**

Image:Portrait of Kaye (© Ben Reed)

# Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Adnabyddir **104** o bobl fel talent allweddol ar y 13 ffilm (nodwyd credydau fel Cynhyrchydd, Cyfarwydd, Ysgrifennwr neu brif actor).



40% o rolau benywaidd, 60% o rolau gwrywaidd, 1% o rolau anneuaidd, (cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, ysgrifenwyr, prif actorion)



31% Cyfarwyddwyr benywaidd (gostyngiad o 40% yn 2021–22, 8% yn 2019–20).



36% Cynhyrchwyr benywaidd (38% yn 2021–22, 28% yn 2019–20).



40% Ysgrifenwyr benywaidd (cynnydd sylweddol o 8% yn y ddau adroddiad blaenorol).



60% Prif actorion benywaidd /anneuaidd (metrig newydd).



25% Prif actorion Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang (cynnydd o 9% yn 2021–2022).



15% Cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang (cynnydd o 0% yn 2021–2022).



10% Ysgrifennwr Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang (cynnydd o 0% yn 2021–2022).

## Cyd-destun:

Mae'r gwelliant mewn cynrychiolaeth Du, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang yn cyd-fynd â phoblogaeth Cymru, ar 5%, sy'n awgrymu cynnydd o ran adlewyrchu amrywiaeth yn sinema Cymru. Nid yw croestoriadedd (e.e. unigolion sy'n fenywod a hefyd yn Ddu, Asiaidd neu Fwyafrif Byd-eang) wedi'i gofnodi'n llawn. Mae diffyg data yn atal dadansoddiad o gynrychiolaeth LHDTC+, b/Byddar, anabl, neu niwrowahanol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn amlygu'r angen i gasglu data mwy cynhwysfawr mewn adroddiadau yn y dyfodol.

# Dadansoddiad yn ôl rôl







## Iaith

**23%** (3/13) teitl yn y Gymraeg (cynnydd o 0 yn 21/22)

**1** dwyieithog (dim newid ers 21/22)

**61%** yn Saesneg yn unig

**15%** (2/13) teitl rhyngwladol gyda Saesneg (Arabeg, Ffrangeg, Bamum)

Fe dderbyniodd **15%** (2/13) teitl adnoddau marchnata Cymraeg gan ddosbarthwyr (cynnydd o 0 yn 21/22)

Cafodd ffilmiau Cymraeg eu hiaith lefel uchel o ymgysylltiad yng Nghymru.

Y Sŵn ( **93%** o fynediadau),

Gwledd (The Feast) ( **21%** o fynediadau).

## Sbotolau:

O ran deunyddiau marchnata Cymraeg, mae gwneuthurwyr a dosbarthwyr ffilmiau'n aml yn meddwl am iaith y ffilm ei hun yn lle'r gynulleidfa y maen nhw'n gwerthu'r ffilm iddi. Mae dosbarthwyr yn nodi diffyg cyllid neu'r ffilm ddim yn 'ddigon Cymraeg' fel rhesymau dros beidio â chynhyrchu'r deunyddiau hyn, yn ogystal â thybiaeth nad yw hyn wedi'i wneud o'r blaen. Amcangyfrifir bod 29.2% o boblogaeth Cymru yn medru siarad Cymraeg, felly byddai cynhyrchu deunyddiau marchnata Cymraeg yn ffordd i ddosbarthwyr feithrin cysylltiadau â chynulleidfaoedd yng Nghymru. Gallai deunyddiau marchnata hefyd adlewyrchu mamiaith y gwneuthurwr ffilmiau / y straeon, gan geisio cysylltu â chynulleidfaoedd Cymru.



Delwedd: The Bronze Men of Cameroon (© Iris Films)

# Astudiaeth Achos: Gwledd

Fe ryddhawyd Gwledd gan Picturehouse, 19 Awst 2022. Mae gan y ffilm gyfarwyddwr, cynhyrchydd, ysgrifennwr, cast, lleoliadau ffilmio a chyllid Cymreig.

*Mae teulu cefnog yn cynnal cinio gwadd yn eu stad anghysbell yng Nghymru, ac mae menter lofaol werthfawr yn y fantol. Pan mae gweinyddes ddirgel yn cyrraedd mae'r teulu'n cael ei ddadrithio'n llwyr, gyda chanlyniadau araf, cythryblus ac arswydus.*

- Fe enillodd *Gwledd* £71,302 ar draws 184 cinemas, gyda 21.4% o refeniw yn dod o sinemâu yng Nghymru (19% o safleoedd).
- Fe alluogodd Gronfa Gynulleidfa'r BFI greadigaeth deunyddiau hygyrchedd, marchnata a thaith holi ac ateb gyda ffocws ar Gymru – y cyfan yn y Gymraeg.
- Cysylltodd Ganolfan Ffilm Cymru ddosbarthwyr gyda sinemâu newydd Cymru a chefnogwyd ymdrechion marchnata gan gynnwys sesiwn holi ac ateb ar ffurf fideo a chynnwys golygyddol.
- Roedd dwy sinema yng Nghymru ymhlith 10 safle mwyaf llewyrchus o ran gwerthiant y  DU ac Iwerddon ar gyfer y ffilm; Roedd Chapter (Caerdydd) yn #2 a Pontio (Bangor) yn #8
- Fe'i rhyddhawyd mewn 26 o sinemâu yng Nghymru (16 aml-sgrin, 10 sinema annibynnol), gan ragori ar y safon ar gyfer ffilmiau tebyg.
- Fe danberfformiodd y swyddfa docynnau oherwydd cystadleuaeth (*Orphan: First Kill*) ei thystysgrif 18+ a heriau marchnad ôl-COVID

# Canfyddiadau allweddol:

Roedd deunyddiau Cymraeg ac ymdrechion a dargedwyd yng Nghymru yn arloesol ac yn helpu i gysylltu â chynulleidfaoedd / sinemâu annibynnol, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.

Perfformiodd sinemâu Cymru yn well na'u cyfran o safleoedd, gan adlewyrchu ymgysylltiad rhanbarthol cryf.

Fe helpodd deunyddiau Cymraeg penodol i ddenu diddordeb ond nid oeddent yn ddigon i oresgyn heriau ehangach yn y farchnad.

Roedd ffactorau lluosog, gan gynnwys cystadleuaeth, y dystysgrif 18+, a phetruster cynulleidfa ôl-COVID, yn rhwystrau i ganlyniadau cyffredinol y swyddfa docynnau.

Roedd cyfraniad Cronfa Cynulleidfa'r BFI a Chanolfan Ffilm Cymru wedi gwella'n sylweddol allu'r ffilm i ymgysylltu â chynulleidfaoedd Cymru, er ei bod yn anoddach mesur effeithiau hirdymor.



Delwedd: Gwledd / The Feast (© Picturehouse Entertainment)

# Astudiaeth Achos: Translations

Roedd Translations yn ffilm gyda chyllideb fechan, a ryddhawyd 2 Mehefin 2023, a hunan-dosbarthwyd oherwydd anhawster yn ceisio sicrhau dosbarthwr. Mae gan y ffilm gast o actorion o Gymru a lleoliadau a chyllid Cymreig.

*Flynyddoedd ar ôl marwolaeth ei brawd, mae Stef wedi encilio gartref. Pan mae Evan, ffrind gorau ei brawd, yn cyrraedd i ddychwelyd dyddiadur Liam, mae cysylltiad yn ffurfio rhyngddynt. Wrth iddynt wynebu'r trawma a rennir ganddynt, mae'n rhaid iddynt benderfynu a all eu perthynas byth ddianc rhag y gorffennol.*

- Fe ddangoswyd y ffilm mewn 9 sinema, 3 yng Nghymru, gan wneud ychydig llai na £2,000, gyda 27.3% o'r gros yn dod o sinemâu yng Nghymru.
- Fe ariannwyd dosbarthu'r ffilm drwy gefnogaeth allanol, gan ddyfalbarhau ac estyn allan yn uniongyrchol i ddiogelu  dangosiadau a thalu am dreuliau megis creadigaeth DCP a thystysgrif y BBFC.
- Oherwydd gallu'r tîm, fe gynigiodd Canolfan Ffilm Cymru gefnogaeth gyfyngedig, yn bennaf drwy'r cyfryngau cymdeithasol a rhestru'r ffilm ar eu gwefan,
- Roedd ymateb dda i'r sesiynau holi ac ateb a dangosiadau arbennig, yn enwedig yng Nghymru, gyda chysylltiadau cryf i gynulleidfaoedd lleol.

# Canfyddiadau allweddol

Roedd dyfalbarhad ac ymgysylltiad uniongyrchol â rhaglenwyr sinema yn hanfodol i sicrhau dangosiadau.

Bu strategaeth farchnata wedi'i thargedu ar lawr gwlad yn effeithiol ar gyfer y rhyddhad hwn ar raddfa fechan.

Roedd cyllid dosbarthu cyfyngedig a dibyniaeth ar gymorth allanol ar gyfer costau yn heriau allweddol.

Cysylltiad cryf â chynulleidfa leol yng Nghymru, gyda derbyniad cadarnhaol o themâu ac iaith Gymraeg y ffilm.

Roedd cefnogaeth Canolfan Ffilm Cymru o gymorth ond gallai fod yn fwy sylweddol o ran rhaglennu.



Delwedd: Translations (© Keith Kopp)

# Casgliadau:

Cafodd ffilmiau **ganlyniadau theatraidd cymysg,** vyn dal i wella o effaith y pandemig.

**Bylchau mewn data,** yn enwedig perfformiad y tu hwnt i sinemâu ac ystadegau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Roedd dangosiadau digwyddiadau arbennig yng Nghymru gyda **thalent yn gyfyngedig,** Fe allai hyn effeithio ar ymwybyddiaeth.

Cafwyd **2 ryddhad proffil uchel** ond daeth cyfran uwch o farchnad Cymru o werthiant tocynnau o ffilmiau llai, a chanddynt fwy o ffocws.

O ganlyniad i'r 2 ryddhad estynedig, dim ond **4.9%** oedd y 13 rhyddhad a 'Wnaethpwyd yng Nghymru' a ddadansoddwyd, sy'n llai na hanner yr hyn y bu mewn blynyddoedd blaenorol.

Darparodd **3 theitl ddeunyddiau marchnata Cymraeg** ar gyfer eu ffilm, a gellid dadlau bod hyn wedi helpu i hybu eu llwyddiant yn sinemâu Cymru ac a all fod yn arf i gyrraedd cynulleidfaoedd.

Mae angen **ymrwymiad ariannol** a **llwyfannau ychwanegol** gan gyllidwyr a dosbarthwyr i wneud teitlau yn fwy gweladwy i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y ffilmiau sy'n cael eu hunan-ddosbarthu.

Gwnaethpwyd yng Nghymru wedi cael derbyniad cadarnhaol ond oherwydd **bylchau mewn gwasanaethau cymorth** mae disgwyl iddo wneud mwy o waith, sydd y tu allan i'w gylch gwaith.

Gellir gweld **gwelliannau** sylweddol ar draws data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a chynhwysiant.

# Cysylltwch â Ni:



**Hana Lewis**
Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru
02920 353 740
hana@filmhubwales.org



**Lisa Nesbitt**
Swyddog Cynorthwyo Aelodau
02920 311 067
lisa@filmhubwales.org



**Toki Allison**
Rheolwr Prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru
07866 451949
toki@filmhubwales.org

**@filmhubwales**

**@madeinwales_**

FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

BFI FAN — BFI FILM AUDIENCE NETWORK

THE NATIONAL LOTTERY

CHAPTER